OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 Rhif 566 (Cy. 131)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol uwchradd (neu ddosbarth penodedig o ysgol uwchradd) a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru a chyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo ("y Gofyniad") lunio, ar y cyd, gynlluniau i hwyluso'r broses bontio ar gyfer disgyblion o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd ("Cynlluniau Pontio").

Nid oes diffiniad o'r term "feeder school" ("ysgol sy'n bwydo") yn adran 198 o Ddeddf 2002. Cyrff llywodraethu ysgolion sy'n penderfynu a yw ysgol yn ysgol sy'n bwydo ar ôl rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 198(2) o Ddeddf 2002. Mae'r canllawiau wedi eu cynnwys yn y Gofyniad i lunio Cynlluniau Pontio a chanllawiau 2022. Mae'r canllawiau hynny yn datgan bod Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylid cyfyngu'r Gofyniad i lunio Cynlluniau Pontio i achosion pan fo perthynas sefydledig a pharhaus rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd benodol yn seiliedig ar y ffaith bod y rhan fwyaf o garfan blwyddyn 6 o'r ysgol gynradd yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd benodol honno.

Mae rheoliad 5 yn darparu i Weinidogion Cymru benderfynu anghydfodau o ran a yw ysgol gynradd i'w hystyried yn ysgol sy'n bwydo at ddibenion Cynlluniau Pontio.

# 2022 No. 566 (W. 131)

# EDUCATION, WALES

# The Transition from Primary to Secondary School (Wales) Regulations 2022

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Section 198 of the Education Act 2002 ("the 2002 Act") provides a power for the Welsh Ministers to require the governing body of each secondary school (or specified class of secondary school) maintained by a local authority in Wales and the governing bodies of their feeder primary schools ("the Requirement"), jointly, to draw up plans to facilitate the transition of pupils from the primary schools to the secondary school ("Transition Plans").

There is no definition of the term "feeder school" in section 198 of the 2002 Act. Whether a school is a feeder school is determined by school governing bodies having had regard to guidance published by the Welsh Ministers under section 198(2) of the 2002 Act. The guidance is contained in the Requirement for the production of Transition Plans and guidance 2022. That guidance states that the Welsh Ministers consider that the Requirement for the drawing up of Transition Plans should be limited to instances where there is an established and ongoing relationship between a primary school and a particular secondary school founded on the majority of the year 6 cohort from the primary school transferring to that particular secondary school.

Regulation 5 provides for Welsh Ministers to determine disputes as to whether a primary school is to be regarded as a feeder school for the purposes of Transition Plans.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chynlluniau Pontio, gan gynnwys—

(a) gofynion o ran ffurf a chynnwys Cynlluniau Pontio, ac ar gyfer eu cyhoeddi (rheoliad 6 a'r Atodlen),

(b) gofynion o ran pa bryd mae rhaid llunio a chyhoeddi Cynlluniau Pontio ac o ran y garfan gyntaf o ddisgyblion i'w chwmpasu (rheoliad 7),

(c) darpariaeth ar gyfer adolygu'r Cynlluniau Pontio a, phan fo'n angenrheidiol neu'n ddymunol, ar gyfer eu diwygio neu eu hamnewid (rheoliadau 8 i 10),

(d) darpariaeth o ran y dull o gyhoeddi Cynlluniau Pontio (rheoliad 11(1)), ac

(e) gofyniad i gopïau o Gynlluniau Pontio gael eu hanfon i'r awdurdod lleol neu'r awdurdodau lleol sy'n cynnal yr ysgolion ac at unrhyw un sy'n gofyn am gopi (rheoliad 11(2)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

These Regulations also make provision in relation to Transition Plans, including—

(a) requirements as to the form and content of Transition Plans, and for their publication (regulation 6 and the Schedule),

(b) requirements as to when Transition Plans must be drawn up and published and as to the first cohort of pupils to be covered (regulation 7),

(c) provision for the review of the Transition Plans and, where necessary or desirable, for their revision or replacement (regulations 8 to 10),

(d) provision as to the manner in which Transition Plans are to be published (regulation 11(1)), and

(e) a requirement for copies of Transition Plans to be sent to the local authority or authorities by which the schools are maintained and to anyone who requests a copy (regulation 11(2)).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government at Crown Building, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 566 (Cy. 131)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mai 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *26 Mai 2022* |
| *Yn dod i rym* | *1 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 198(3) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2022.

**Dirymu**

**2.** Caiff Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006(**2**) eu dirymu ar 1 Medi 2022.

(**1**) 2002 p. 32 a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1158. Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 212(1) o Ddeddf Addysg 2002.

(**2**) O.S. 2006/520 (Cy. 64).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 566 (W. 131)

# EDUCATION, WALES

## The Transition from Primary to Secondary School (Wales) Regulations 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *23 May 2022* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *26 May 2022* |
| *Coming into force* | *1 July 2022* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 198(3) and 210(7) of the Education Act 2002(**1**), and now exercisable by them, make the following Regulations:

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Transition from Primary to Secondary School (Wales) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 1 July 2022.

**Revocation**

**2.** The Transition from Primary to Secondary School (Wales) Regulations 2006(**2**) are revoked on 1 September 2022.

(**1**) 2002 c. 32 amended by S.I. 2010/1158. The functions conferred on the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). For the definitions of "prescribed" and "regulations" see section 212(1) of the Education Act 2002.

(**2**) S.I. 2006/520 (W. 64).

**Dehongli**

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnal yr ysgol;

ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 11 oed ynddi;

ystyr "blwyddyn 7" ("*year 7*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 12 oed ynddi;

mae i "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "school year" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr "Cynllun Pontio" ("*Transition Plan*") yw cynllun o'r math y cyfeirir ato yn adran 198(1) o Ddeddf 2002 Act a rheoliad 4(2) o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**1**);

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf Addysg 1996;

mae i "dosbarth" ("*class*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 82(1) o Ddeddf 2021;

mae i "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 79 o Ddeddf 2021.

**Cymhwyso'r Rheoliadau**

**4.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir y mae'n ofynnol i'r cyrff llywodraethu lunio Cynlluniau Pontio ar eu cyfer(**2**).

(2) At ddibenion paragraff (1) mae Cynlluniau Pontio yn ofynnol ar gyfer—

(a) pob ysgol uwchradd a gynhelir gan awdurdod lleol (neu sy'n dod o fewn dosbarth penodedig o ysgol o'r fath), a

(b) pob un o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo ac a gynhelir gan awdurdod lleol y mae Gweinidogion Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i'w cyrff llywodraethu, o dan adran 198(1) o Ddeddf 2002, lunio cynlluniau, ar y

**Interpretation**

**3.** In these Regulations—

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002;

"the 2021 Act" ("*Deddf 2021*") means the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021(**1**);

"class" ("*dosbarth*") has the meaning given to it in section 82(1) of the 2021 Act;

"local authority" ("*Awdurdod Lleol*") means a local authority in Wales that maintains the school;

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") has the meaning given to it in section 79 of the 2021 Act;

"pupil" ("*disgybl*") has the meaning given to it in section 3 of the Education Act 1996;

"school year" ("*blwyddyn ysgol*") has the meaning given to it in section 579(1) of the Education Act 1996;

"Transition Plan" ("*Cynllun Pontio*") means a plan of the kind referred to in section 198(1) of the 2002 Act and regulation 4(2) of these Regulations;

"year 6" ("*blwyddyn 6*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 11;

"year 7" ("*blwyddyn 7*") means the school year in which the majority of pupils in the class attain the age of 12.

**Application of the Regulations**

**4.**—(1) These Regulations apply in relation to maintained schools for which the governing bodies are required to produce Transition Plans(**2**).

(2) For the purposes of paragraph (1) Transition Plans are required for—

(a) each secondary school maintained by a local authority (or which falls within a specified class of such a school), and

(b) each of its feeder primary schools maintained by a local authority the governing bodies of which are required by the Welsh Ministers, under section 198(1) of the 2002 Act, jointly

(**1**) 2021 dsc 4.
(**2**) Nodir y gofyniad i lunio Cynllun Pontio yn y Gofyniad i lunio Cynlluniau Pontio a chanllawiau 2022 (LIC22-21) ("Gofyniad 2022"). Mae Gofyniad 2022 wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru fel is-ddeddfwriaeth Gymreig ond nid yw'n offeryn statudol.

(**1**) 2021 asc 4.
(**2**) The requirement to draw up a Transition Plan is set out in the Requirement for the production of Transition Plans and guidance 2022 (WG22-21) ("the 2022 Requirement"). The 2022 Requirement is made by the Welsh Ministers as Welsh subordinate legislation but is not a statutory instrument.

cyd, i hwyluso'r broses bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion cynradd hynny a dderbynnir i'r ysgol uwchradd.

**Anghydfodau o ran a yw ysgol yn ysgol gynradd sy'n bwydo**

**5.** Mae unrhyw anghydfod o ran a yw ysgol i'w hystyried yn ysgol gynradd sy'n bwydo mewn perthynas ag ysgol uwchradd benodol i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

**Ffurf a chynnwys Cynlluniau Pontio**

**6.**—(1) Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo lunio, ar y cyd, Gynllun Pontio unigol ar gyfer yr ysgolion hynny.

(2) Caiff Cynllun Pontio unigol gynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw un neu ragor o ysgolion cynradd sy'n bwydo a honno'n wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer yr ysgol gynradd arall, neu'r ysgolion cynradd eraill, sy'n bwydo.

(3) Rhaid i Gynllun Pontio—

(a) bod yn ysgrifenedig,

(b) egluro'n gryno beth yw diben Cynllun Pontio,

(c) datgan ei fod wedi ei lunio ar y cyd gan gorff llywodraethu'r ysgol uwchradd o dan sylw a chyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo,

(d) datgan enwau'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo,

(e) datgan y garfan gyntaf o ddisgyblion y mae'n gymwys iddi drwy gyfeirio at y flwyddyn ysgol y symudodd y disgyblion cyntaf hynny ar ei dechrau i fyny i flwyddyn 6 yn eu hysgol gynradd,

(f) datgan y dyddiad y cafodd ei gyhoeddi, ac

(g) ymdrin â'r materion a bennir yn yr Atodlen.

**Cyhoeddi Cynlluniau Pontio**

**7.**—(1) Rhaid cyhoeddi'r Cynllun Pontio cyntaf ar gyfer ysgol uwchradd a phob un o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo ar 1 Medi 2022 neu cyn hynny.

(2) Y disgyblion y mae Cynllun Pontio cyntaf yn gymwys iddynt yw'r disgyblion hynny sydd, o ddechrau'r flwyddyn ysgol 2022 i 2023, ym mlwyddyn 6 pob ysgol gynradd sy'n bwydo ac sy'n disgwyl trosglwyddo o'r ysgol gynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd ym mlwyddyn ysgol nesaf yr ysgol uwchradd.

to draw up plans to facilitate the transition from primary school to secondary school of pupils at those primary schools who are admitted to the secondary school.

**Disputes as to whether a school is a feeder primary school**

**5.** Any dispute as to whether a school is to be regarded as a feeder primary school in relation to a particular secondary school is to be determined by the Welsh Ministers.

**Form and content of Transition Plans**

**6.**—(1) Governing bodies of secondary schools and their feeder primary schools must jointly draw up a single Transition Plan for those schools.

(2) A single Transition Plan may contain provision for any one or more feeder primary schools which is different from the provision for the other feeder primary school or schools.

(3) A Transition Plan must—

(a) be in writing,

(b) briefly explain the purpose of a Transition Plan,

(c) state that it was jointly drawn up by the governing body of the secondary school concerned and the governing bodies of its feeder primary schools,

(d) state the names of the secondary school and its feeder primary schools,

(e) state the first pupil cohort to which it applies by reference to the school year at the beginning of which those first pupils moved up to year 6 in their primary school,

(f) state the date on which it was published, and

(g) deal with the matters specified in the Schedule.

**Publication of Transition Plans**

**7.**—(1) The first Transition Plan for a secondary school and each of its feeder primary schools must be published on or before 1 September 2022.

(2) The pupils to which a first Transition Plan applies are those pupils who, from the beginning of the 2022 to 2023 school year, are in year 6 of each feeder primary school and expect to transfer from the feeder primary school to the secondary school in the next school year of the secondary school.

(3) Rhaid cyhoeddi Cynlluniau Pontio dilynol ar neu cyn 1 Medi o'r flwyddyn ysgol y mae'r Cynllun i gymryd effaith ynddi.

(4) Y disgyblion y mae Cynllun Pontio dilynol yn gymwys iddynt yw'r disgyblion hynny sydd, o ddechrau'r flwyddyn ysgol y mae'r Cynllun Pontio dilynol yn cymryd effaith ynddi, ym mlwyddyn 6 pob ysgol gynradd sy'n bwydo ac sy'n disgwyl trosglwyddo o'r ysgol gynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd ym mlwyddyn ysgol nesaf yr ysgol uwchradd.

**Adolygu Cynlluniau Pontio**

**8.** Rhaid i Gynllun Pontio gael ei adolygu—

(a) os daw ysgol gynradd ("yr ysgol gynradd newydd") yn ysgol gynradd sy'n bwydo i ysgol uwchradd y mae ganddi eisoes un neu ragor o ysgolion cynradd sy'n ei bwydo,

(b) os bydd ysgol gynradd sy'n bwydo yn peidio â bod yn ysgol gynradd sy'n bwydo i ysgol uwchradd,

(c) os adolygir cwricwlwm naill ai'r ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd o dan adran 12 o Ddeddf 2021,

(d) os adolygir trefniadau asesu naill ai'r ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd a wneir o dan Reoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022(**1**),

(e) os bydd cyrff llywodraethu pob un o'r ysgolion o dan sylw yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, neu

(f) ar ddiwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddwyd y Cynllun Pontio (neu'r cynllun diwygiedig).

**Diben adolygiad**

**9.**—(1) Diben adolygiad o dan reoliad 8(a) yw—

(a) i gyrff llywodraethu'r ysgolion a gytunodd y Cynllun Pontio cyfredol a chorff llywodraethu'r ysgol gynradd newydd ystyried ar y cyd pa ddiwygiadau (os oes rhai) sy'n briodol, a

(b) i'r cyrff llywodraethu gytuno Cynllun Pontio newydd, ar y cyd, os ydynt yn meddwl ei bod yn briodol gwneud hynny.

(2) Diben adolygiad o dan reoliad 8(b) i (e) yw i gyrff llywodraethu'r ysgolion a gytunodd y Cynllun Pontio cyfredol ystyried—

(**1**) O.S. 2022/17 (Cy. 9).

(3) Subsequent Transition Plans must be published on or before 1 September of the school year the Plan is to take effect.

(4) The pupils to which a subsequent Transition Plan applies are those pupils who, from the beginning of the school year in which the subsequent Transition Plan takes effect, are in year 6 of each feeder primary school and expect to transfer from the feeder primary school to the secondary school in the next school year of the secondary school.

**Review of Transition Plans**

**8.** A Transition Plan must be reviewed—

(a) if a primary school ("the new primary school") becomes a feeder primary school of a secondary school which already has one or more feeder primary schools,

(b) if a primary school ceases to be a feeder primary school of a secondary school,

(c) if the curriculum of either the primary or secondary school is reviewed under section 12 of the 2021 Act,

(d) if the assessment arrangements of either the primary or secondary school made under the Education (Arrangements for Assessing in the Curriculum for Wales) Regulations 2022(**1**) are reviewed,

(e) if the governing bodies of all of the schools concerned consider it appropriate to do so, or

(f) at the end of the period of 3 years beginning on the date on which the Transition Plan (or revised plan) was published.

**Purpose of a review**

**9.**—(1) The purpose of a review under regulation 8(a) is—

(a) for the governing bodies of the schools which agreed the current Transition Plan and the governing body of the new primary school to jointly consider what revisions (if any) are appropriate, and

(b) for the governing bodies to jointly agree a new Transition Plan if they think it appropriate to do so.

(2) The purpose of a review under regulation 8(b) to (e) is for the governing bodies of the schools which agreed the current Transition Plan to consider—

(**1**) S.I. 2022/17 (W. 9).

(a) a yw’n angenrheidiol neu’n ddymunol diwygio’r Cynllun Pontio, a

(b) llunio, ar y cyd, Gynllun Pontio newydd neu ddiwygiedig, os ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu’n ddymunol diwygio’r Cynllun Pontio.

(3) Ym mhob achos rhaid i gyrff llywodraethu’r ysgolion o dan sylw roi ystyriaeth i sut y gallai’r cyrff llywodraethu a’r penaethiaid reoli’r broses bontio yn well wrth gynnal adolygiad o dan reoliad 8.

**Cyhoeddi datganiad yn dilyn adolygiad**

**10.**—(1) Os yw’r cyrff llywodraethu, yn dilyn adolygiad o dan reoliad 8, yn penderfynu peidio â diwygio’r Cynllun Pontio cyfredol, rhaid iddynt gyhoeddi datganiad sy’n cofnodi’r penderfyniad hwnnw, gan roi rhesymau cryno drosto (“Datganiad”).

(2) Rhaid cyhoeddi’r Cynllun Pontio newydd (neu ddiwygiedig) cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol a ddim hwyrach na dechrau’r flwyddyn ysgol ar gyfer cyhoeddi.

(3) Yn achos adolygiad o dan reoliad 8(a), disgyblion cyntaf yr ysgol gynradd newydd y mae’r Cynllun Pontio newydd neu ddiwygiedig yn gymwys iddynt yw’r disgyblion hynny sydd, ar ddechrau’r flwyddyn ysgol, ym mlwyddyn 6 ac sy’n disgwyl trosglwyddo i’r ysgol uwchradd ym mlwyddyn ysgol ganlynol yr ysgol uwchradd.

(4) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 11, mae i “Datganiad” yr ystyr a roddir ym mharagraff (1) o’r rheoliad hwn.

**Cyhoeddi Cynlluniau Pontio a darparu copïau**

**11.**—(1) Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion y mae Cynllun Pontio neu Ddatganiad yn ymwneud â hwy ei roi ar gael i’r ysgolion hynny edrych arno.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu’r ysgol uwchradd ddarparu copi o’r Cynllun Pontio (neu’r cynllun diwygiedig) i’r awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol uwchradd a’r ysgolion cynradd sy’n ei bwydo neu, os cânt eu cynnal gan ddau neu ragor o awdurdodau lleol gwahanol, i bob un ohonynt.

(a) whether it is necessary or desirable to revise the Transition Plan, and

(b) if it is considered that it is necessary or desirable to revise the Transition Plan, to jointly draw up a revised or new Transition Plan.

(3) In all cases the governing bodies of the schools concerned must take account of how the transition process might be better managed by the governing bodies and head teachers when carrying out a review under regulation 8.

**Publication of a statement following a review**

**10.**—(1) If, following a review under regulation 8, the governing bodies decide not to revise the current Transition Plan, they must publish a statement recording that decision, giving brief reasons for it (“a Statement”).

(2) The new (or revised) Transition Plan must be published as soon as reasonably practicable and no later than the beginning of the publication school year.

(3) In the case of a review under regulation 8(a), the first pupils of the new primary school to which the new or revised Transition Plan applies are those pupils who, at the beginning of the school year, are in year 6 and expect to transfer to the secondary school in the following school year of the secondary school.

(4) In this regulation and regulation 11, “Statement” has the meaning given in paragraph (1) of this regulation.

**Publication of Transition Plans and provision of copies**

**11.**—(1) A Transition Plan or Statement must be made available for inspection by the schools to which it relates by the governing bodies of those schools.

(2) The governing body of the secondary school must provide a copy of the Transition Plan (or revised plan) to the local authority by which the secondary school and feeder primary schools are maintained or, if they are maintained by two or more different local authorities, to all of them.

*Jeremy Miles*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
23 Mai 2022

Minister for Education and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
23 May 2022

# YR ATODLEN Rheoliad 6(3)

## Materion y Mae Rhaid Ymdrin â Hwy mewn Cynlluniau Pontio

**1.** Y cynigion yn gyffredinol ar gyfer rheoli a chydlynu'r broses bontio ar gyfer disgyblion o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd.

**2.** Y cynigion yn gyffredinol ar gyfer sut y cyflawnir parhad y dysgu drwy ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 6 sy'n symud i flwyddyn 7.

**3.** Y cynigion ar gyfer sut y cefnogir cynnydd pob disgybl unigol wrth iddo bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**4.** Y cynigion ar gyfer sut y cefnogir anghenion dysgu a llesiant pob disgybl unigol wrth iddo bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**5.** Y cynigion ar gyfer adolygu a monitro effaith y Cynllun Pontio mewn cysylltiad â sut y mae—

(a) wedi helpu i gyflawni'r mater ym mharagraff 2 o'r Atodlen hon, a

(b) wedi helpu i gefnogi'r materion ym mharagraffau 3 a 4 o'r Atodlen hon.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

# SCHEDULE Regulation 6(3)

## Matters Which Must be Dealt With in Transition Plans

**1.** The proposals generally for managing and co-ordinating the transition of pupils from the feeder primary schools to the secondary school.

**2.** The proposals generally for how continuity of learning will be achieved through curriculum design and planning for teaching and learning for pupils in year 6 moving to year 7.

**3.** The proposals for how each individual pupil's progression will be supported as they transition from primary school to secondary school.

**4.** The proposals for how the learning needs and the well-being of each individual pupil will be supported as they transition from primary school to secondary school.

**5.** The proposals for reviewing and monitoring the impact of the Transition Plan in respect of how—

(a) it has helped achieve the matter in paragraph 2 of this Schedule, and

(b) it has helped support the matters in paragraphs 3 and 4 of this Schedule.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

ISBN 978-0-348-39309-5

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/566